



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Gweithdai Tymor yr Hydref

Cynhelir gweithdai ar gyfer penaeithiad a hyd at un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli wedi hanner tymor ar:

Cynllunio Gwelliant Effeithiol (CDY Effeithiol)

Arweiniad ar sut i gynllunio gwelliannau ac ysgrifennu CDY effeithiol. Gweithdai ymarferol i chi ystyried effeithiolrwydd eich CDY fel cynllun i yrru gwelliannau yn yr ysgol.

Gweithdai Monitro a Hunan Arfarnu

Cyfle i drafod beth yw nodweddion prosesau arfarnu, monitro a chynllunio gwelliant effeithiol a fydd yn cynnwys edrych ar egwyddorion hunan arfarnu llwyddiannus, ffynonellau tystiolaeth a hefyd yr adnodd cenedlaethol gwerthuso a gwellu.

Bydd y gweithdai hyn yn addas i unrhyw bennaeth newydd i'r swydd, aelodau o'r uwch dîm newydd i'r rôl ac/neu bennaethiad profiadol sy'n awyddus i gael diweddariad ar yr hyn sy'n gwneud CDY effeithiol ac adolygu prosesau Hunan Arfarnu.

Dewch â chopi o'ch CDY cyfredol i'r gweithdy cyntaf os gwelwch yn dda, gan y bydd hwn yn sail i drafodaethau yn ystod y sesiwn.

Mae croeso i chi fynychu gweithdai mewn sir gyfagos os yw hyn yn well or ran dyddiad, lleoliad a chyfrwng iaith. Bydd modd cofrestru trwy G6 o [27/10/2022](#) ymlaen.

Cynllunio Gwelliant Effeithiol (CDY Effeithiol)	Gweithdy Monitro a Hunan Arfarnu	Lleoliad
15/11/2022 09:15-15:00	29/11/2022 09:15-15:00	- Meirion / Dwyfor - Gwynedd [ardal Porthmadog] [CYM] - Sir y Fflint / Wrecsam [ardal Yr Wyddgrug] [SAES] - Ynys Môn [Gogledd yr ynys] [CYM]
16/11/2022 09:15-15:00	30/11/2022 09:15-15:00	- Arfon - Gwynedd [ardal Caernarfon] [CYM] - Conwy [ardal Llandudno] [CYM] - Sir y Fflint / Wrecsam [ardal Yr Wyddgrug] [CYM]
17/11/2022 09:15-15:00	01/12/2022 09:15-15:00	- Wrecsam / Sir y Fflint [ardal Wrecsam] [SAES] - Conwy [ardal Llandudno] [SAES]

**** Cynhelir gweithdai ar y meysydd uchod fel rhan o gynhadledd penaeithiad flynyddol Sir Ddinbych ar 22/11/2022**



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

CYNNIG PROFFESIYNOL GWE

Cynnig Proffesiynol - Lles

Cofrestrwch drwy G6 os gwelwch yn dda.

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

25/10/2022-18/11/2022

Dyddiad

Cyfrwng

'Bioffilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper

18/11/2022

Saesneg

Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

Mae cynnig dysgu proffesiynol dysgu digidol ar gyfer 2022-23 yn fyw!

Cliciwch yma i weld yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael:

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/cdppl/iaith-language>



RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Dosbarth Google i Gymorthyddion Addysgu

Banc o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol gymorthyddion addysgu.

Mae'r adnoddau yn cynnwys pynciau megis:

- Y Cyngor Gweithlu Addysg – defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol
- Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu
- Statws CALU
- Cwricwlwm i Gymru
- Adnoddau Hwb
- Dysgu Cymraeg

..... a llawer mwy. Ychwanegir adnoddau newydd yn rheolaidd.

Y cod er mwyn ymuno â'r dudalen yw **ghlyepw**. Bydd angen defnyddio eich e-bost Hwb i ymuno.

Defnyddiwch y ddolen hon am gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb:

<https://cutt.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion>

[Cliciwch yma](#) am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom. Dyma linc i droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom: <https://cutt.ly/Troslais-Google-Classroom>

Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Bydd Cylch 6 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis **Ionawr 2023**.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **25/11/2022**.

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio. Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

ANG - Dyddiadau Pwysig ar gyfer 2022/23

Mae dyddiadau'r dysgu proffesiynol ar gyfer ANG a fydd yn gweithio yn eich ysgol o fis Medi 2022 ar gael [yma](#). Mae'n bwysig bod pob ANG yn mynychu'r Dysgu Proffesiynol.

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP

Lansio'r Rhaglen	22/06/22
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 27/10/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2023
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2024



<https://www.gwegogledd.cymru/rhaglen-genedlaethol-i-ddatblygu-darpar-benaethiaid/>



cpcp@gwegogledd.cymru

SWYDDI GYDA GwE

Swydd: Swyddog Prosiectau (Dros dro - Cyfnod Mamolaeth)

Rydym yn hysbysebu am Swyddog Prosiectau i ymuno â'n tîm. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi a chynorthwyo timau o fewn GwE i gyflawni gofynion prosiectau penodol ar draws y rhanbarth. Manylion llawn ar gael [yma](#). **DYDDIAD CAU: 10/11/2022**



Swydd: Uwch Swyddog - Dadansoddi Gwybodaeth

Rydym yn hysbysebu am Uwch Swyddog - Dadansoddi Gwybodaeth i ymuno â'n tîm. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Rheolwr Gwybodaeth i greu, cynnal a datblygu systemau i gasglu, crynhoi a dadansoddi gwybodaeth fydd yn sicrhau llif gwybodaeth effeithiol o fewn y wasanaeth ac i'w rhan-ddeiliad. Manylion llawn ar gael [yma](#). **DYDDIAD CAU: 10/11/2022**



Swydd: Swyddog Systemau a Chyfathrebu

Rydym yn hysbysebu am Swyddog Systemau a Chyfathrebu i ymuno â'n tîm. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r gwasanaeth wrth iddo wireddu ei gynllun busnes gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: Brandio a chyhoeddiadau consortiwm; y bwletin ysgolion wythnosol; dylunio graffeg a chysodi; reprograffeg; nwyddau ac arwyddion; trawsnewid digidol a systemau; cynnwys digidol, yn cynnwys y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Manylion llawn ar gael [yma](#). **DYDDIAD CAU: 10/11/2022**



NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Lles

[Llythyr Gweinidogol ar y cyd at Benaethiaid](#)

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch y Fframwaith ar sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.

[Diploma mewn Ysgolion a Chymunedau sy'n Wybodys am Drawma ac Iechyd Meddwl](#)

STATWS YMARFERYDD

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth ynghylch y cwrs GwE 11 sydd yn dechrau **Hydref 2022** yn Ysgol Gyfun Llangefni. [Ffurflen gais yma](#).

Am wybodaeth ynglŷn â'r cwrs GwE 12 sydd yn dechrau ym mis **Ionawr 2023** yn Ysgol Glan Clwyd / Oriel Hotel, [cliciwch yma](#).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â lindsay@traumainformedschools.co.uk / alys@traumainformedschools.co.uk



Rhwydwaith 3-8 Tymor yr Hydref

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl leoliadau a dyddiadau. **Nid oes angen cofrestru ar gyfer mynychu'r sesiynau yma.**



Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd

[Cliciwch yma](#) am negeseuon allweddol ar gyfer 2022/2023



Prosiect Pontio Addysgeg

Gwahoddir ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatgan diddordeb ar y cyd mewn cydweithio ar ymchwil weithredu i bontio addysgeg rhwng mis **Ionawr a Rhagfyr 2023**. Rhannwyd y manylion yng Ngweithdy Pontio GwE, 7 Hydref 2022.

DYDDIAD CAU: 28 HYDREF 2022.

Dilynwch y [ddolen hon](#) am fwy o wybodaeth a [chliciwch yma](#) am gopi o'r ffurflen i ddatgan diddordeb. Diolch.

Y Gymraeg

Digwyddiad Ein Llais Ni: Datblygu Siaradwyr y Dyfodol



22/11/2022



9:00-15:30



Venue Cymru, Llandudno

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae bron i 100 o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwy iaith ar draws y rhanbarth wedi bod yn rhan o Brosiect datblygu a chefnogi llafaredd "Ein Llais Ni".

Cynhelir **Digwyddiad Datlu ar 22/11/22 yn Venue Cymru, Llandudno**—cyfle i roi llwyfan i waith ysgolion Ein Llais Ni a rhannu'r bwriadau ar gyfer gwreiddio a dyfnhau'r gwaith ymhellach.

Os nad oeddech yn un o'r ysgolion oedd yn rhan o'r Prosiect, ac eisoes wedi cael gwahoddiad - mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael (ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwy iaith). **Cofrestrwch drwy'r [ffurflen yma](#) erbyn 14/11/22.** Ni fydd cost i fynychu, ond ni ellir cynnig costau llanw.

Â diddordeb mewn dysgu/datblygu eich Sgiliau Cymraeg?

Mae amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy'r

[Cynllun Sabothol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.](#)

Mae mwy o wybodaeth ar Hwb am [ddatblygu'r Gymraeg yn eich ysgol.](#)



Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion - 08/11/2022

CYNLLUNIO DATBLYGIAD IAITH GYMRAEG I YMARFERWYR

Bydd y [rhestr chwarae](#) yma yn cefnogi arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir ar Sgiliau Iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg wrth gwblhau Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ac i gynllunio dysgu proffesiynol addas i ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol. **Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Hwb i gael mynediad i'r rhestr chwarae yma.**



Athrawon: Allwch chi helpu i recriwtio pobl ifanc ar gyfer prosiect ymchwil am ddysgu Cymraeg?

TAFLEN WYBODAETH

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal prosiect ymchwil. Rydym yn awyddus i ddatblygu cyrsiau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ennill TGAU Cymraeg Ail Iaith, ac hoffem siarad â myfyrwyr a safodd TGAU yn yr Haf. Byddai'r cyrsiau newydd yn benodol ar gyfer myfyrwyr a hoffai barhau ar eu taith i ddysgu Cymraeg ond sydd ddim am ddewis Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Nod y prosiect yw deall eu hanghenion yn well.

Rydym ni'n chwilio yn benodol am bobl ifanc i gymryd rhan yn yr astudiaeth, sydd:

- newydd sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith (yn ddelfrydol yr Haf hwn)
- ddim yn/heb astudio am gymhwyster Cymraeg uwch na TGAU
- ddim yn siarad Cymraeg gartref
- heb gael dim addysg cyfrwng Cymraeg

Bydd myfyrwyr yn cael sgwrs syml a chyfeillgar un-i-un ar-lein gyda chyfwelydd, gyda rhan o'r sgwrs yn Gymraeg. Bydd yn cychwyn yn syml iawn ac yn cynnwys pynciau cyfarwydd i'r myfyrwyr. Bydd y sgwrs yn cael ei recordio ar Microsoft Teams ac yn para 5-10 munud.

Os gallwch helpu i recriwtio myfyrwyr, anfonwch e-bost fer at elen.robert@dysgucymraeg.cymru

Gwella sgiliau darllen mewn ysgolion



Mae GwE wedi bod yn gweithio gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor i lunio cyfres o strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hynny er mwyn gwella sgiliau darllen Cymraeg a Saesneg dysgwyr sy'n cael anhawster. Mae'r prosiectau hyn bellach wedi'u crynhoi mewn [canllaw byr i arweinwyr ysgol](#) ac mae'n bleser gennym wahodd ysgolion i gael [hyfforddiant ar wella rhuglder darllen](#), [fersiwn Saesneg rhaglen ddarllen RILL](#) a [Rhaglen Ddarllen Headsprout](#).

Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP)

A oes gan eich ysgol chi ddiddordeb mewn datblygu athrawon fel ymholwyr proffesiynol?

A oes gennych chi ddiddordeb mewn defnyddio sgiliau ymchwil ac ymholi fel rhan o werthuso eich gwaith Cwricwlwm i Gymru a'ch darpariaeth ehangach?

Os felly, hwyrach y byddai gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP) yn 2022-23. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.

Dyfodol Byd-eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

Canolfan Cefnogaeth GwE: [leithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

Diwrnod Hyfforddiant [wyneb yn wyneb] i athrawon ysgol gynradd

16/11/2022 - 9:00-15:30 - Siaradwr: Richard Tallaron, Power Language

Cynlluniwyd y Diwrnod ar y cyd rhwng ein tîm Dyfodol Byd-eang a'n partneriaid yn Power Language, a'r bwriad yw rhoi syniadau ymarferol i athrawon allu gwreiddio leithoedd yn effeithiol yn eu cwricwlwm.

Cyfle da hefyd i gwrdd â chyd-weithwyr, datblygu rhwydwaith cymorth proffesiynol ar draws y rhanbarth ar gyfer IRh yn y cynradd a thrafod ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion tramor.

Ffrangeg i athrawon ysgol gynradd: Institut français

Yn dilyn y sesiynau blasu llwyddiannus ym Mehefin 2022, hoffem drefnu cyfres arall o 3 neu 4 gwers i ddysgu Ffrangeg ym mis Ionawr, yn dibynnu ar y galw.

Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i feithrin sgiliau mewn ffordd raddol a hylaw, yn gysylltiedig ag agweddau diwylliannol a chynghor addysgegol sydd yn hawdd i'w roi ar waith yn y dosbarth.

Byddai Dyfodol Byd-eang GwE yn hapus i drefnu sesiwn dal i fyny a chyfarfod y tiwtor ar **9/11/2022** (ar-lein 15:45-16:30).

CERDD IAITH: Dull creadigol o addysgu leithoedd (British Council Cymru) i athrawon ysgol gynradd

Defnyddio cerdd a drama i addysgu Saesneg, Cymraeg ac Almaeneg.

Diwrnod hyfforddiant posibl ar-lein ar gyfer Almaeneg: **29/11/2022** – yn dibynnu ar y galw.

Cyfarfod Rhwydwaith Hwb ITM Uwchradd: Hydref 2022

Cadwch y dyddiad a [chofrestrwch erbyn 10/11/2022](#).

Dyma gyfle i gyfarfod â chyd-weithwyr, ffeirio syniadau a chydweithio i gyfoethogi ein cynnig i ddysgwyr.

Mae croeso i chi fynd i'r rhwydwaith/rhwydweithiau o'ch dewis chi. Agenda i ddilyn.

Dyddiadau	25/11/22 - 9:00-12:00	14/11/22 - 9:00-12:00	21/11/22 - 9:00-12:00
Lleoliad	Ysgol Dyffryn Ogwen	Ysgol Uwchradd Prestatyn	Ysgol Y Grango

Yr ysgol fydd yn gyfrifol am gostau llanw.

Nodyn Atgoffa: Cyfle am gyllid ar gyfer leithoedd Rhyngwladol: adnoddau Power Language.

Mae tîm Dyfodol Byd-eang GwE yn cynnig cyfle i ysgolion cynradd wneud cais am danysgrifiad dwy-flynedd i adnoddau Power Language Schools wedi ei ariannu'n llawn. Mae'r adnoddau ar gyfer athrawon arbenigol ac anarbenigol, a darperir pob cymorth: nodiadau i'r athro, ffeiliau sain i helpu efo ynganu, cyfleoedd asesu...

Os hoffech wneud cais am y tanysgrifiad, cwblhewch y ffurflen [hon](#).

GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYMRU

Ymgynghoriad - Gwisg Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newidiadau i'r canllawiau statudol ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg rhwng 18 Hydref a 28 Tachwedd.

Mae manylion yr ymgynghoriad ar gael drwy'r [ddolen hon](#).



Adnoddau sydd wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru

[Gweler yma](#) restr o adnoddau newydd gan Lywodraeth Cymru.



Digwyddiadau Mewnwelediad Polisi

Ers 2020, rydym wedi bod yn cynnal 'Digwyddiadau Mewnwelediad Polisi' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ddatblygiadau dysgu proffesiynol. Cyflwynir y sesiynau 1-awr rhyngweithiol gan ymarferwyr ysgolion ar secondiad i Lywodraeth Cymru.

Cynhelir y digwyddiadau'n rhithwir ac maent ar gael yn anghydamserol, fel fideo neu restr chwarae Hwb.

Gellir cael mynediad i ddigwyddiadau diweddar all-lein yn yr adran [adnoddau diweddar](#), gyda digwyddiadau blaenorol yn yr [archif](#).

DIGWYDDIADAU I DDOD

- **27/10/2022** - Trafod Addysgeg: themâu mawr y tymor hwn
- **24/11/2022** - Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol [PYPC]

I gael mynediad i'r 'Digwyddiadau Mewnwelediad Polisi' yn fyw, cwblhewch y [ffurflen gofrestru ar-lein](#).

I gael mynediad i'r digwyddiadau hyn all-lein, edrychwch ar yr [adran adnoddau diweddar](#) neu'r [archif](#).

Gwybodaeth i rieni am sut mae addysg yn newid

Dyma [ddau fideo](#) i helpu lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr i gefnogi rhieni/gofalwyr efo deall sut mae addysg yn newid yn sgil y Cwricwlwm i Gymru, a'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Mae'r fideos yn canolbwyntio ar y canlynol:

- [Cwricwlwm i Gymru: Addysg feithrin i blant 3 a 4 oed](#) - Cyflwyniad i rieni a gofalwyr
- [Cwricwlwm i Gymru: Addysg gynnar i blant rhwng 5 ac 8 oed](#) - Cyflwyniad i rieni a gofalwyr

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Trafod Addysgeg

LLE DIOGEL I SIARAD A MEDDWL GYDA'CH GILYDD

Sut gallwn ni helpu ein dysgwyr i ddod yn fwy effeithiol?

Archwilio addysgeg i ddatblygu effeithiolrwydd dysgwyr, gan gynnwys metawbyddiaeth a hunan-reoleiddio.

7 Tachwedd 2022 - 14:00 [NEU](#)

9 Tachwedd 2022 15:45

Dewch i un o'n digwyddiadau lansio ar 7 Tachwedd am 2yp neu 9 Tachwedd am 3:45yp i ddechrau eich taith i archwilio effeithiolrwydd dysgwyr. [Rhagor o fanylion ar gael yma](#).

Adnodd Mathemateg - Gweithgareddau Rhesymu

Mae'r adnodd Gweithgareddau Rhesymu wedi'i ddiweddarau!

6 gweithgaredd newydd ar gyfer Cam Cynnydd 1

- Opsiwn sain i ddarllen cwestiynau • Disgrifiadau dysgu i bob gweithgaredd
- Cyfarwyddiadau Pop Ups

[Cliciwch yma am ragor o fanylion.](#)



Maggie's, Caerdydd

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ynglŷn â'r elusen gancr.



MA Addysg [Cymru]

Mae gan Brifysgol Bangor gymhwyster MA mewn Addysg **wedi'i ariannu'n llawn** i athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

Cyflwynir **ar-lein** ac mae ar gael **trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg**. Cynigir **tri llwybr posibl**: MA Addysg (Cymru), Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu Arweinyddiaeth.

Mae lleoedd a ariennir yn gyfyngedig, ac mae meini prawf yn berthnasol. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am hyn [yma](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Kaydee Owen (E-bost: kaydee.owen@bangor.ac.uk).

